

DIWEDDARIAD GAEAF 2018



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwlad

e-gylchlythyr

Cofrestrwch i dderbyn
e-gylchlythyr Gwlad
am holl newyddion a
datblygiadau diweddaraf
y byd amaeth yn syth
i'ch mewnflwch.

Dilynwch y camau isod i gofrestru

- 1 Ewch i www.llyw.cymru a  cliciwch yr eicon 'newyddion a rhybuddion'
- 2 Rhowch eich cyfeiriad e-bost yn y blwch a cliciwch 'cyflwyno'
- 3 Cadarnhewch eich cyfeiriad e-bost, crëwch gyfrinair os ydych am wneud, a cliciwch 'cyflwyno'
- 4 Dewiswch Gwlad – cylchlythyr Materion Gwledig o'r rhestr opsiynau a cliciwch 'cyflwyno'
- 5 Byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau eich tanysgrifid

DYDDIADAU PWYSIG

2018/19

RHAGFYR

1 Rhagfyr

Dechrau cyfnod talu Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

10 Rhagfyr

Talu benthyciadau BPS 2018

11 Rhagfyr

Newidiadau i Borth y Llywodraeth

14 Rhagfyr

Trefn newydd ar gyfer cofrestru ar RPW Ar-lein

IONAWR

1 Ionawr

Cofnodi stocrestr o'r Defaid a'r Geifr

7 Ionawr

Cyswllt Ffermio: cyfnod gwneud cais sgiliau yn agor

28 Ionawr

Gwaith Cyfalaf Glastir Uwch a Gwaith Cyfalaf Rheoli Coetir Glastir: dyddiad cau ar gyfer hawlio ar gyfer 2018

29 Ionawr

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd — dyddiad penderfynu ar y datganiadau o diddordeb

CHWEFROR

1 Chwefror

Stocrestr Flynyddol Defaid a Geifr: dyddiad cau cyflwyno ffurflen

7 Chwefror

Cynhadledd Ffermio Cymru, Maes y Sioe, Llanelwedd

28 Chwefror

Grant Busnes i Ffermydd: diwedd cyfnod hawlio 5

Cyswllt Ffermio: cyfnod gwneud cais sgiliau yn cau

MAWRTH

SAF 2019 ar gael

Glastir Tir Comin 2019 ar gael

Cymorth Digidol ar gael

31 Mawrth

Grantiau Bach Glastir (Carbon): dyddiad cau ar gyfer cwblhau prosiect a hawlio

Creu Coetir Glastir a Adfer Coetir Glastir: rhaid cwblhau'r holl waith cyfalaf

EBRILL

30 Ebrill

Creu Coetir Glastir a Adfer Coetir Glastir: dyddiad cau ar gyfer hawlio

Hawliau BPS 2019: cyfnod trosglwyddo yn cau am hanner nos (ar-lein)

MAI

15 Mai

SAF 2019: dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais

Glastir Tir Comin 2019: dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais

MEHEFIN

30 Mehefin

Grantiau Bach Glastir (Dŵr): dyddiad cau ar gyfer cwblhau prosiect a hawlio

Cyfradd Gyfnewid taliadau Cynllyn y Taliad Sylfaenol 2018

Y cyfradd gyfnewid a gaiff ei defnyddio ar gyfer taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol 2018 yw €1 = £0.89281.

Newidiadau i Borth y Llywodraeth

Bydd proses newydd o gofrestru i Borth y Llywodraeth yn mynd yn fyw yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Rhagfyr 2018.

Mae hyn yn golygu y gofynnir i gwsmeriaid presennol RPW Ar-lein wirio eu cyfeiriad e-bost, creu gair diogel cofiadwy (a ddefnyddir ar gyfer adennill cyfrif) a chadw neu ddiwygio eu manylion mewngofnodi presennol.

Er mwyn hwyluso trosglwyddiad esmwyth, bydd RPW Ar-lein ddim ar gael o 11 i 14 Rhagfyr 2018.

Bydd angen i unrhyw gwsmeriaid sydd wedi cael cod ysgogi, ond heb eu cofrestru ar RPW Ar-lein erbyn 10 Rhagfyr 2018, aros tan 14 Rhagfyr 2018 pan fydd y gweithrediad cyfrif ar-lein newydd ar gael.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Porth y Llywodraeth a gwefan RPW Ar-lein.



Taliadau Gwledig Cymru — Cofrestru Cwsmeriaid Ar-lein

Ar 14 Rhagfyr 2018, bydd trefn cofrestru papur RPW yn dod i ben. Rhaid gwneud popeth nawr ar-lein. Bydd y broses gofrestru ar-lein hon yn dyrannu Rhifau Cyfeirio Cwsmeriaid unigryw (CRN) i gwsmeriaid newydd ac yn galluogi i fynd yn syth i RPW Ar-lein.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **RPW Ar-lein: dechrau arni**.

Toriadau Trawsgydymffurfio

Mae mwyafrif yr achosion o dorri rheolau trawsgydymffurfio sy'n cael eu canfod yn ystod misoedd y gaeaf yn gysylltiedig â gwartheg, defaid ac achsion lles. Yr achosion mwyaf cyffredin yw methu â:

- Cofnodi symudiadau mewn pryd
- Cofnodi marwolaethau mewn pryd
- Cynnal cofnodion geni
- Cofnodi manylion symudiadau yn gywir
- Cofnodi pan fydd anifeiliaid yn cael eu tagio
- Diweddaru cofnodion Meddyginiaethau a Marwolaethau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych yn rheolaidd ac yn gwirio dogfennau trawsgydymffurfio 2018 sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Contractau Glastir - camgymeriadau cyffredin

Dylai busnesau fferm droi bob tro at fersiwn ddiweddaraf eu contract a'u mapiau.

I osgoi gwneud camgymeriadau dylai busnesau fferm gydymffurfio a'u contract, cadw cofnodion a rheoli eu tir yn unol a'r opsiynau rheoli.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **RPW Ar-lein: Glastir**.



Lleihau'r risg yn Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN)



Mae Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN) wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer yr achosion newydd o TB.

Yn 2017 yn unig, roedd yna 63 o achosion newydd o TB sy'n gynydd o 75% o'i gymharu â'r 36 o achosion yn y 12 mis cyn hynny. Dyma'r ffigur blynyddol uchaf ers 2013 (66).



Yn 2017 yn unig,
roedd yna 63
o achosion
newydd o TB



sy'n gynydd o 75%
o'i gymharu â'r 36 o
achosion yn y 12 mis
cyn hynny

Mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau i ddelio â'r spigyn mewn clefyd yng Nghymru yn gyflym ac yn effeithiol, yn enwedig yn y ITBAN. Mae'r Ardal TB Canolradd yn ffinio â'r Ardal TB Isel a rhaid inni amddiffyn honno os ydym am daro'n nod o roi Statws heb TB swyddogol i'r ardal gyntaf yng Nghymru erbyn 2023.

Yn dilyn cyhoeddiad gan yr Ysgrifenydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 15 Hydref mae mesurau cryfach i gadw golwg ar TB wedi dechrau yn yr ITBAN er mwyn darganfod achosion yn gynt a gostwng nifer yr achosion newydd.

Dyma fydd y camau cyntaf i geisio troi'r rhod yn yr ITBAN; rydyn ni wrthi'n ystyried mesurau eraill hefyd ar gyfer lleihau TB yn yr ardal.

Profion ychwanegol o gwmpas buchesi sydd wedi'u heintio â TB

Caiff profion ychwanegol eu cynnal ar fuchesi sy'n ffinio â buchesi sydd wedi'u heintio â TB (sydd â Statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OTFW)). Mae hynny'n golygu cynnal prawf cyntaf ar y fuches gyffiniol, yna prawf cyffiniol 6 mis ar ôl y prawf cyntaf, yna prawf cyffiniol ar ôl 6 mis arall ac yna prawf 'cyffiniol 12', 12 mis yn ddiweddarach.

Ymweliadau Cymorth TB i 'Gadw TB allan'

Bydd Cymorth TB yn trefnu ymweliadau 'Cadw TB Allan' â ffermwyr yn yr ITBAN sydd wedi cael profion TB cyffiniol clir. Bydd buchesi sydd ag achos o TB yn cael ymweliad cyffredin gan Cymorth TB. Bydd ymweliadau 'Cadw TB Allan' yn cynnwys cyngor personol ar fesurau ymarferol y gallai'r ffermwr eu cymryd i gadw TB allan o'r fferm.

Am ba hyd y bydd y mesurau hyn yn para?

Bydd y mesurau yn eu lle am o leiaf 2 flynedd a bydd yn cael ei hadolygu ar ôl 12 mis i ystyried a gwnaed cynnydd o ran lleihau nifer yr achosion yn yr ardal.

Arolwg o Foch Daear Marw

Dechreuodd arolwg Moch Daear Marw Cymru Gyfan ar 1 Medi 2017, mae hyn yn cynnwys genoteipio canlyniadau positif lle bo hynny'n berthnasol. Mae dadansoddiad o ganlyniadau yr Arolwg o Foch Daear Marw wedi cael ei wneud, fodd bynnag, mae'r nifer isel o gyflwyniadau yn y ITBAN yn golygu ei bod yn anodd iawn dod i unrhyw gasgliadau cadarn ynghylch pa rôl, os o gwbl, mae bywyd gwyllt yn chwarae yn y spigyn mewn digwyddiadau.

I gael darlun gwell o'r clefyd mewn moch daear a wnaiff pawb sy'n cael hyd i fochyn daear marw yn yr ITBAN, neu rhywle arall yng Nghymru, ffonio 0808 1695110 am ragor o wybodaeth a chyfarwyddiadau ynghylch beth i'w wneud â'r corff.

Prynu Gwybodus

Mae'n bwysig cofio bod wastad elfen o risg wrth brynu gwartheg y gallen nhw ddod â chlefyd i'ch fferm. Mae'n bwysig iawn felly bod yna wybodaeth am sefyllfa TB y gwartheg yn y man gwerthu fel bod prynwyr yn deall y perygl o gyflwyno'r clefyd i'w buches gartref. Mae hefyd yn bwysig i ffermwyr ddarparu gwybodaeth TB bob amser yn y man gwerthu.

Mae hyn yn galluogi:

- bydd ffermwyr wedyn yn gallu seilio'u penderfyniadau ar yr wybodaeth orau a chymryd camau synhwyrol wrth gyflwyno anifeiliaid newydd i'w fferm;
- ddiogelu buchesi rhag y clefyd;
- lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd i ardaloedd newydd;
- helpu i gadw buchesi'n iach a chynhyrchio;
- lleihau'r gost sy'n dod yn sgil achos o TB.

Rhagor o wybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llyfryn TB Buchol, Lleihau y risg yn yr Ardal TB Canolraddol y Gogledd (ITBAN). Mae'r llyfryn yn esbonio y mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer o ddigwyddiadau newydd o TB mewn gwartheg o fewn yr ITBAN a chamau a all gan ffermwyr i atal hyn.

Dolen i'r llyfryn isod:

llyw.cymru/docs/drah/publications/181016-bovine-tb-itban-booklet-cy.pdf



Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr 1 Ionawr 2019

Bydd ffurflen y Stocrestr
Flynyddol o Ddefaid a Geifr
yn cael ei phostio at bob
ceidwad o ganol Rhagfyr.

Mae'r Stoccrestr Flynyddol yn ofyniad cyfreithiol i gofnodi cyfanswm y defaid a'r geifr sy'n eiddo i chi ar 1 Ionawr 2019. Mae'n rhaid i chi gofnodi nifer y defaid/geifr ym mhob rhif lleoliad daliad.

Dylai cyfanswm y defaid a gofnodir gynnwys defaid magu, hyrddod, wŷn hwrdd, wŷn benyw, wŷn stôr ac wŷn wedi'u pesgi, mamogiaid a hyrddod i'w difa.

Rhaid i chi hefyd gofnodi nifer y defaid a'r geifr sydd gennych ar 1 Ionawr yng nghofrestr y daliad ar y fferm.

Os nad ydych wedi derbyn ffurflen
erbyn 1 Ionawr 2019, cysylltwch â
EIDCymru ar 01970 636959.

Mae'n rhaid cwblhau'r Stocrestr
Flynyddol erbyn 1 Chwefror 2019.

**GALL METHU Â GWNEUD HYN
ARWAIN O BOSIB AT GOSB
TRAWSGYDYMFFURFIO A
BYDDWCH CHI'N FWY TEBYGOL
O GAEL ARCHWILIAD.**

[illegible]

Ffurflen stocrestr flynyddol ar-lein

Gall ceidwaid ddewis llenwi'r
Stocrestr Flynyddol ar-lein trwy
fynd i www.eidcymru.org.

Os ydych yn llenwi'r ff urfl en yn electronig, nid oes angen i chi ddychwelyd y ff urfl en bapur.

**Os oes angen cymorth, cysylltwch
â'r llinell gymorth gwasanaeth
EIDCymru **0170 636959** neu
e-bostiwrch **contact@eidcymru.org****

Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn hwyluso fforwm ar gyfer rhannu arbenigedd ym maes datblygu gwledig.

Mae'r Uned Gefnogi ar gael i bawb sydd â diddordeb mewn datblygu gwledig neu sy'n ymwneud â Chymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru — Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 a'r cynlluniau a ariennir.



Yr hyn a wnawn

- trefnu a hyrwyddo digwyddiadau a mentrau sy'n rhad ac am ddim
- rhannu newyddion datblygu gwledig
- arddangos enghreifftiau o brosiectau a ariennir ac astudiaethau achos
- cyflwyno gwybodaeth am gyfleoedd cyllido a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt
- trefnu ymweliadau astudio, gan annog pobl i gydweithredu a rhannu gwybodaeth
- eich annog a'ch helpu i ddod o hyd i bobl i gydweithredu â chi
- gallu eich cyflwyno i bobl, busnesau a grwpiau cymunedol eraill

Gallwch gymryd rhan drwy

- tanysgrifio i'n cylchlythyr a'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol
- lanlwytho'ch prosiectau a ariennir
- dod i'n digwyddiadau
- rhannu arferion da ac adnoddau
- cydweithio â phobl eraill sy'n cymryd rhan mewn datblygu gwledig, a hynny ar draws Ewrop

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru — Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020

Dyma raglen fuddsoddi 7 mlynedd sy'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau drwy'r cynlluniau canlynol:

Amaethyddiaeth

- Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi
- Glastir
- Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
- Grant Busnes i Ffermydd

Bwyd

- Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd
- Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig — Bwyd

Coedwigaeth

- Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren
- Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio
- Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth

Cymuned

- LEADER
- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig
- Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Amgylchedd

- Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Twristiaeth

- Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)
- Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)
- Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth
- Cronfa Ymgysylltu â Thwristiaeth Ranbarthol

Cysylltwch â ni

Ffon: 03000 062 2302 Ebst: rhwydwaithgwledig@llyw.cymru

Gwefan: www.gov.wales/ruralnetwork

 www.facebook.com/WalesRuralNet

 @WalesRuralNet



Elusennau Cymorth i Ffermwyr

Yn aml yn y byd ffermio, mae'r annisgwyl yn digwydd. Dyna pam mae'r cymorth ariannol ac emosiynol sydd ar gael gan dair elusen Farming Help — Cronfa Addington, Rhwydwaith y Gymuned Ffermio (FCN) a'r R.A.B.I (y Sefydliad Brenhinol dros Les Amaethyddol) — mor bwysig. Mae'r tri sefydliad wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ffermwyr Cymru a'u teuluoedd. Mae'r elusennau'n gweithio gyda'i gilydd i roi cymorth mewn sawl ffordd, yn cynnwys hyfforddiant, cymorth a chynghor emosiynol, grantiau ariannol a thai fforddiadwy.

Yn aml, siarad â rhywun yw'r cam gyntaf i wella iechyd meddwl — a dyma sut gall Rhwydwaith y Gymuned Ffermio (FCN) roi help llaw. Sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi aelodau o'r gymuned ffermio drwy adegau anodd yw FCN. Mae gan yr elusen linellau cymorth ffôn ac electronig cenedlaethol cyfrinachol sydd ar agor bob dydd rhwng 7am ac 11pm.

Mae'r llinell gymorth dan ofal gwirfoddolwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith sy'n cynnig clust i wrando. Mae gan FCN oddeutu 40 o wirfoddolwyr sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Maent yno i helpu cyhyd ag sydd angen, gan gerdded gyda phobl a'u helpu i ddod o hyd i ganlyniadau cadarnhaol i'w sefyllfaoedd. Mae natur unig ffermio a phwysau'r gwaith — a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r diwydiant — yn golygu bod problemau iechyd meddwl yn gyffredin yng nghymuned ffermio Cymru. Y diwydiant sydd ag un o'r cyfraddau hunanladdiad uchaf o hyd o blith yr holl alwedigaethau.

Mae Cronfa Addington yn darparu cartrefi i'w rhentu yn rhatach na chyfraddau'r farchnad drwy ei gynllun Tai Gwledig Strategol. Mae'n cynorthwyo teuluoedd ffermio sy'n gorfod gadael eu ffermydd — a'u cartrefi — fel y gallant ymddeol gydag urddas, yn eu milltir sgwâr, gyda chynllun ymadael sydd wedi'i ariannu'n briodol. Mae gan Addington stoc fach o dai gwledig fforddiadwy yn arbennig ar gyfer pobl mewn galwedigaethau gwledig sydd ddim yn gallu fforddio rhentu neu brynu ar y farchnad agored.

Meddai Bill Young y Prif Weithredwr:

“Mae Cronfa Addington yn awyddus i helpu dyfodiaid iau sydd ar drothwy eu gyrfaedd fel y gallant yn aros yn yr ardal wledig o'u dewis. Rydym ni hefyd yn cynnig Cymorth mewn Trychineb drwy Gronfa Disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i leddfu caledi gwledig sy'n deillio o drychinebau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyfnodau hir o dywydd gwael a/neu glefydau anifeiliaid. Rydym yn elusen wirioneddol unigryw yn ein cysyniadau a'n nod yw cysylltu â'r rheini yn y diwydiant amaethyddol neu ddiwydiannau cysylltiedig sydd angen cymorth i gadw ardaloedd gwledig yn gynaliadwy a darparu'r cymorth hynny iddynt.”

Mae R.A.B.I yn rhoi cymorth ariannol i bobl yn y diwydiant ffermio sy'n wynebu caledi; gan gynnig grantiau i bobl o bob oed ledled Cymru, sydd heb fawr o gynilon ac yn ennill incwm isel. Mae llawer o bobl hŷn yn cael lwfansau byw rheolaidd, ac mae cymorth ar gyfer pobl sy'n gweithio yn cael ei deilwra, yn cynnwys pethau fel cymorth i hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, prynu nwyddau gwyn hanfodol, talu biliau'r cartref ac ariannu staff cyflenwi ar ffermydd.

Eleni, mae tua £244,000 wedi cael ei dalu mewn grantiau yng Nghymru, cryn dipyn yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2017. Mae mwy o arian wedi cael ei roi i deuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru a dyna sydd i gyfrif am lawer o'r cynnydd. Mae mwy na £100,000 o grantiau wedi'u rhoi eleni — mwy na dwbl y cyfanswm yn yr un cyfnod yn 2017.*

Meddai Cadeirydd R.A.B.I, Malcolm Thomas MBE o Sir Gâr:

“Does dim dwywaith fod y tywydd eleni wedi trethu llawer o bobl yn y byd amaeth i'r eithaf, a hynny ym mhob sector. Rydym ni wedi cael cyfnodau hir o dywydd gwael o'r blaen, ond y tro yma, mae wedi bod yn arbennig o anodd i bobl gynllunio oherwydd i ni gael gwanwyn gwlyb ac oer dros ben ac yna cyfnod o sychder, gan greu hunllef.”

* Mae'r ffigurau a roddir wedi'u talgrynnu ac maent yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ionawr a 12 Tachwedd 2018. Nid ydynt wedi bod yn destun archwiliad.



Cysylltwch â Chronfa Addington, FCN, ac R.A.B.I ar linell gymorth Farming Help 03000 111 999

DYDDIAD I'R DYDDIADDUR

Cynhadledd Ffermio Cymru

07/02/19
10:00-16:00

Hafod a Hendre,
Maes y Sioe Frenhinol,
Llanelwedd

Cymerwch seibiant o brysurdeb bywyd bob dydd i fynychu Cynhadledd Ffermio Cymru. Diwrnod i annog agwedd bositif, rhannu syniadau blaengar a chyfle i fagu nerth i wynebu newid. Bydd y digwyddiad, a fydd yn cynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr o ansawdd uchel o Gymru a thu hwnt, yn rhoi'r egni a'r grym i'ch galluogi i weld cyfleoedd ym mhob her.

cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Rhifau Adnabod Daliadau (CPH) a Symudiadau Da Byw – Ydy'ch busnes yn gweithredu o dan y rheolau newydd?

Mae newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r system CPH yng Nghymru er mwyn sefydlu rheolau cyson ar gyfer pob rhywogaeth da byw ac er mwyn gwella gallu'r Llywodraeth i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol os bydd achosion o glefyd.

Pa newidiadau sy'n cael eu cyflwyno?

- Rheol pellter newydd o 10 milltir ar gyfer pob rhywogaeth da byw
- Gwaredu holl gysylltiadau'r System Orlhain Gwartheg (CTS) a Chytundebau Meddiannaeth Unigol (SOA)
- Proses newydd ar gyfer cofrestru defnydd o dir dros dro (364 o ddyddiau neu lai) fel Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) neu CPH dros dro (tCPH).

Rheoli fy CPH

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system ar-lein gwbl newydd - Rheoli fy CPH - sy'n galluogi ceidwaid i reoli a chynnal y parseli tir a'r tir comin cofrestredig y maent yn eu defnyddio at ddibenion da byw, gan ddefnyddio eu cyfrif RPW Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys:

- Cofrestru CPH/tCPH newydd
- Ychwanegu at CPH dir a ddefnyddir at ddibenion da byw
- Dileu tir o CPH
- Ychwanegu tir a ddefnyddir dros dro at CPH drwy TLA

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Mae gofyn i gwsmeriaid ddefnyddio Rheoli fy CPH ar gyfer cofrestru'r tir a ddefnyddir at ddibenion da byw. Mae'n rhaid i Rheoli fy CPH gael ei ddiweddarau bob tro y caiff tir ei ychwanegu neu ei ddileu o CPH, hyd yn oed os yw ond yn cael ei ddefnyddio am gyfnod byr

Gall yr holl dir sydd o fewn 10 milltir i'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) gael ei gynnwys mewn un rhif CPH. Nid oes angen i symudiadau rhwng parseli tir sydd wedi'u cofrestru o dan yr un rhif CPH gael eu cofnodi ac nid yw'r rheolau ynghylch gwahardd symud yn berthnasol iddynt, ond mae'n rhaid i symudiadau i dir sydd â rhif CPH gwahanol gael eu cofnodi o hyd.

Cewch ragor o wybodaeth yma: www.llyw.cymru/prosiectcph neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Pori eich da byw ar dir rhywun arall

Mae gan geidwaid da byw sy'n defnyddio tir dros dro (am 364 o ddyddiau neu lai) yr opsiynau canlynol o ran cofnodi symudiadau:

1. Cofnodi'r symud i CPH y tirfeddiannwr (gyda'u caniatâd), neu
2. Cofrestru'r tir ar Rheoli fy CPH fel un ai TLA - os yw o fewn 10 milltir i'r PPL, neu tCPH

Er mwyn gallu cofrestru'r tir fel un ai TLA neu tCPH, mae'n rhaid i geidwaid ddatgan mai dim ond nhw sy'n defnyddio'r tir, ee na fydd eu hanifeiliaid yn cymysgu gyda da byw ceidwad arall.

Gaeafu Dan Do

Dylai ceidwaid ddeall os ydynt yn rhentu sied sy'n rhannu buarth â cheidwad / perchennog tir arall, ni fyddem yn ystyried bod hynny'n feddiant unigol, gan fod y buarth a'r adeilad yn yr un parcel tir. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai gofyn i geidwaid adrodd ynghylch unrhyw symudiadau i CPH y tirfeddiannwr. Er mwyn cael bod o dan feddiant unigol, dim ond un ceidwad gaiff ddefnyddio'r parcel tir cyfan.

Beth yw'r amodau ar gyfer unig feddiannydd?

- Ar safle sy'n eiddo neu ar rent i unigolyn, partneriaeth neu gwmni bydd yr holl anifeiliaid o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.
- Mae'n rhaid i gaeau neu adeiladau unigol sy'n eiddo iddynt fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.
- Mae'n rhaid i gaeau neu adeiladau unigol sy'n cael eu rhentu iddynt fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni gydol oes y denantiaeth.
- Mae caeau neu adeiladau (sy'n eiddo neu'n cael eu rhentu) a ddefnyddir gan unigolion, partneriaethau neu gwmnïau ar wahân, yn cael eu hystyried o dan feddiant unigol ar wahân hyd yn oed os oedd y caeau unigol ac ati yn rhan o'r un rhif CPH gwreiddiol.
- Pan fydd gan unigolyn arall hawl mynediad drwy dir sy'n eiddo neu sy'n cael ei rentu gan yr unigolyn/partneriaeth/cwmni ni ellir ei dderbyn fel meddiannaeth unigol oni bai na fydd yr hawl mynediad yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg i symud anifeiliaid ar droed.
- Mae'n rhaid bod gan gaeau neu adeiladau unigol (sy'n eiddo neu'n cael eu rhentu):
 - » Mynedfeydd ar wahân i gaeau neu adeiladau eraill nad ydynt o dan reolaeth yr unig feddiannydd
 - » Ffin sy'n ddiogel rhag da byw e.e. ffens/perth/gwrych/wal, sy'n briodol i'r anifeiliaid ar y tir, i gadw anifeiliaid unig feddiannydd gwahanol ar wahân.
 - » Ni chaiff da byw gymysgu'n rhydd â da byw eraill o CPH arall.

Gweithio gyda'n gilydd i wella ansawdd dŵr

Does dim sy'n cael cymaint o effaith ar ein hamgylchedd naturiol na ffermio. Mae ffermwyr mewn sefyllfa unigryw i gadw'n dyfroedd croyw ac arfordirol yn lân ond yn ôl y rheoleiddwyr, yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld dros 100 o achosion bob blwyddyn o lygredd amaethyddol yn niweidio'n nentydd a'n hafonydd. Lleiafrif bach o ffermydd sy'n gyfrifol am yr achosion hyn, ond maen nhw'n gallu cael effaith ddifrifol.



Er y gallai'r llygredd basio ymhen oriau gan adael y nant i lifo'n glir, gall yr effaith tymor hir fod yn ddychrynlyd. Gall y llygredd ladd pysgod ac infertebratau, a'r larfâu pryfed a'r cramenogion hynny yw'r creaduriaid y mae ein pysgod a'n hadar, fel y fronwen a'r siglen lwyd, yn dibynnu arnyn nhw. Mae llygredd yn effeithio ar yr amgylchedd, twristiaeth a hefyd wrth gwrs, ar enw da'r diwydiant ac mae'r cyfryngau wastad yn rhoi llawer o sylw iddo.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i atal llygredd amaethyddol. Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ei bod yn cyflwyno rheoliadau newydd i fynd i'r afael â llygredd ffermydd. Daw'r rheoliadau i rym ym mis Ionawr 2020 ac maen nhw'n seiliedig ar fesurau arferion da. I weld manylion y mesurau arferion da, darllenwch y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (COGAP) a chanllawiau am fesurau Trawsgydymffurfio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru.

A ninnau ar drothwy'r gaeaf, rhaid rhoi sylw arbennig i'r cyngor yn y COGAP i beidio â gwasgaru tail da byw:

- os ydy'r rhagolygon yn dweud bod glaw trwm ar ei ffordd yn y 48 awr nesaf
- os ydy'r pridd yn llawn dŵr, wedi'i rewi'n galed neu o dan eira

Rhaid i ffermwyr sy'n hawlio taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol neu'r Rhaglen Datblygu Gwledig gadw at safonau Trawsgydymffurfio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin gan gynnwys yr amodau ar gyfer cadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da (GAEC) sy'n diogelu dŵr wyneb rhag llygredd. Mae'r safonau Trawsgydymffurfio'n gwahardd ffermwyr rhag gwasgaru slyri o fewn 10 metr i ddŵr wyneb neu 6 metr os ydyn nhw'n defnyddio offer gwasgaru manwl-gywir.

Er bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn cadw at y canllawiau uchod, mae rhagor eto i'w wneud, ac fel cydnabyddiaeth o'r ffaith na fyddai llawer o achosion o lygredd yn digwydd o gwbl pe bai ffermwyr yn rheoli pethau'n well ymhell cyn i'r llygredd lifo i'r nant, mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn dod â llawer o randdeiliaid ynghyd i gydweithio i atal llygredd.

Mae'r partneriaid wedi rhoi sawl cynllun ar waith i'ch helpu i ddeall sut y gallwch chi chwarae'ch rhan i drechu'r broblem.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Mae gan **Cyswllt Ffermio** raglen i daclo llygredd amaethyddol sy'n rhoi help, cyngor ac arweiniad i ffermwyr trwy gyfrwng ffilm, e-dafleuni ac astudiaethau achos. Cynigir cyngor i fusnesau unigol neu grwpiau o fusnesau sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ar baratoi cynlluniau rheoli maethynnau, gwella cyfleusterau'r fferm gan gynnwys cyfarpar gwahanu dŵr glân a dŵr brwnt, storfeydd slyri, tail a silwair a llawer o agweddau technegol eraill.



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** wedi penodi wyth swyddog amaethyddol newydd a'u nod yw ymweld â rhyw 30% o 1,700 o'r ffermydd godro yng Nghymru eleni i'w helpu i ddilyn yr arferion gorau i osgoi llygredd amaethyddol.

Yn aelodau o is-grŵp y Fforwm y mae NFU Cymru, FUW, CLA, Dŵr Cymru, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Cyswllt Ffermio, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Os hoffech wybod mwy beth allech ei wneud ar eich fferm i helpu i drechu'r broblem a gwneud yn siŵr ein bod yn gwella ansawdd dŵr yng Nghymru, yna cysylltwch â Cyswllt Ffermio i ddysgu mwy am y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael:

www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu **farmingconnect@menterabusnes.co.uk**
neu ffoniwch **08456 000 813**

A yw eich busnes yn perfformio ar ei orau?



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

....sicrhewch fod eich busnes yn cyrraedd ei botensial



Beth am ystyried meincnodi eich busnes?

- Gallwn ddarparu cefnogaeth dechnegol a/neu fusnes
- Gallwn eich cynorthwyo i weithio'n fwy effeithlon i gynyddu cynhyrchiant

Yma i'ch cefnogi ar bob cam

Cysylltwch â'ch swyddog
datblygu Cyswllt Ffermio Lleol
www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Paratoi ar gyfer y gaeaf ar y fferm

Wrth i'r gaeaf prysur agosáu, **mae'n bwysig iawn ichi ddechrau paratoi ar gyfer y gaeaf** nawr a hynny er mwyn helpu i leihau'r effaith ar eich fferm ac i leihau'r perygl o rywbeth difrifol yn digwydd. Drwy wneud rhai newidiadau bach nawr, gallai hynny arbed amser, pryder ac arian yn y dyfodol. Isod, ceir cynghorion am yr hyn y dylech fod yn ei ystyried.

- ✓ Adolygu'ch polisïau yswiriant a gwneud yn siŵr eu bod yn eich diogelu rhag niwedd a ddaw yn sgil tywydd garw/stormydd
- ✓ A yw'ch peiriannau wedi'u cynnal a'u cadw ac a oes digon o wrthrewydd ynddynt?
- ✓ A oes digon o le yn yr adeiladau i amddiffyn rhywfaint ar gerbydau hanfodol megis tractorau a beiciau cwad?
- ✓ A oes digon o gyflenwadau o olew tanwydd/gwresogi gennych ar gyfer y gaeaf?
- ✓ A oes cyflenwad digonol o fwyd gennych pe baech yn cael eich cau i mewn gan eira?
- ✓ A oes gennych digon o le i storio slyri dros y gaeaf?
- ✓ A ydych wedi ystyried lles y da byw drwy ystyried pethau megis deunydd gorwedd, dŵr ac adeiladau i aeafu dan do?
- ✓ A oes digon o gyflenwadau o fwyd gennych ar gyfer eich anifeiliaid dros y gaeaf?
- ✓ Nodi ardaloedd 'diogel' hawdd eu cyrraedd lle y gellir symud stoc os bydd rhagolygon yn darogan tywydd garw?
- ✓ A yw'ch adeiladau yn ddiogel ac wedi'u diogelu'n ddigonol rhag y tywydd?
- ✓ A oes cynllun ar waith i sicrhau bod modd cyrraedd eich fferm os ceir iâ ac eira?
- ✓ A oes digon o gyflenwadau o halen/ graean i gadw ffyrdd i mewn ac allan ar agor?
- ✓ A oes gennych gyflenwad wrth gefn o drydan megis generadur?

Mae nifer mawr o ffermwyr naill ai'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffermydd yng Nghymru bob blwyddyn felly mae'n bwysig bod iechyd a diogelwch yn cael blaenoriaeth. Gellir cael cyngor ar asesiadau risg ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: www.hse.gov.uk/agriculture

Ffynonellau pellach o gyngor/gwybodaeth

Llywodraeth Cymru: **Cyngor ar dywydd garw, Lles anifeiliaid**

The Met Office: **Get ready for winter**

Cyfoeth Naturiol Cymru: **Rhybudd Llifogydd**

RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Arolwg moch daear marw

0808 169 5110

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

0300 303 8268

Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru

0300 062 5004

Cronfa Addington

01926 620 135

Cyfoeth Naturiol Cymru

0300 065 3000

Cyswllt Ffermio

08456 000 813

Sefydliad DPJ

contact@thedpjfoundation

EID Cymru

01970 636 959

Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)

0345 050 3456

Lantra Cymru

01982 552 646

Llinell Gymorth TB

0800 496 1439

QWFC

01970 636 688

Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol (RABI)

0808 281 9490

Tir Dewi (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro)

0800 121 4722

Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm

03000 111 999